



# Ysgol Tyle'r Ynn

## Polisi Anghenion Addysgiadol Arbennig

**Cydlynnydd AAA Ysgol Tyle'r Ynn : Mr Leighton Daniel (ers |Medi 2016)**  
**Llywodraethwr â chyfrifoldeb AAA : Mrs Margaret Davies.**

### **Diffiniad**

Mae gan blentyn anghenion addysgiadol arbennig (AAA) os oes ganddo/ganddi trafferthion dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgiadol ychwanegol.

Mae gan blentyn trafferthion dysgu:

- a) Os oes ganddynt drafferthion addysgu sy'n arwyddocaol fwy na'r mwyafrif o blant o'r un oed
- b) Os oes ganddynt anabledd sy'n eu rhwystro rhag ddefnyddio cyfleusterau addysgiadol a ddarparir ar gyfer plant o'r un oed

Mae darpariaeth addysgiadol ychwanegol yn golygu darpariaeth addysgiadol sy'n ychwanegol i, neu yn wahanol na'r darpariaeth addysgiadol sy'n gyffredin i blant yr un oed mewn ysgolion, ar wahan i ysgolion arbennig.

Mae person ag anabledd yn golygu rhywun sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sydd yn effeithio are eu gallu i gario mlaen a gweithgareddau dydd i ddydd. Rhaid bo'r effaith yn :

1. Sylweddol
2. Hir dymor (hynny yw, wedi parhau, neu yn debygol o barhau, am o leiaf blwyddyn, neu am weddill oes).

### **Cyflwyniad**

Credwn fod gan bob plentyn anghenion unigol ac unigryw. Serch hynny, bydd rhai o'n disgyblion angen fwy o gymorth nac eraill, ac os ydy'r disgyblion yma i gyrraedd eu llawn potensial, mae'n rhaid i ni dderbyn hyn, a chynllunio are eu cyfer. Cydnabyddwn fod nifer arwyddocaol o ddisgyblion yn debygol o gael anghenion addysgiadol arbennig (AAA) rhywbryd yn ystod eu gyrfa ysgol. Bydd nifer o'r plant yma angen cymorth ar hyd eu amser yn yr ysgol, tra bydd eraill angen ychydig o gymorth ychwanegol i'w helpu gorchfygu anghenion dros dro. Ein nod yw darparu strategaethau i blant AAA ar gyfer delio a'u

anghenion mewn amgylchedd gynhaliol, er mwyn iddynt gael mynediad ystyrlon i'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Ein hamcanion yn Ysgol Tyle'r Ynn yw:

1. Galluogi pob plentyn I brofi llwyddiant
2. Hybu hyder unigol ac agwedd positif
3. Sicrhau fod pob plentyn, beth bynnag eu AAA, yn derbyn darpariaeth addysgiadol addas drwy gwricwlwm eang a chytbwys, sydd yn berthnasol ac wedi'i wahaniaethu, ac sydd yn arddangos cydlyniad a chynnydd yn y dysgu
4. Sefydlu amgylchedd addysgiadol sy'n hybu plant, sy'n dangos parch at lwyddiant, ac sy'n sensitif at anghenion unigolion, a lle gall pawb ddatblygu
5. Sicrhau agwedd hyblyg at addysgu plant AAA
6. Sicrhau cyfleoedd cyfartal i blant AAA er mwyn iddynt allu gwneud defnydd o holl ddarpariaeth yr ysgol, mor belled ac mae hyn yn addas
7. Sicrhau addysg cyflawn, ddwyieithog i blant ag AAA
8. Adnabod, asesu, recordio ac adolygu'n reolaidd, anghenion a datblygiad disgyblion AAA
9. Cofio fod datblygiad personol yr un mor bwysig a datblygiad academiaidd
10. Cynnwys rhieni/gofalwyr wrth gynllunio a chynnal datblygiad eu plant. Mae angen i'r ysgol gyd weithio'n agos â rhieni er mwyn sicrhau darpariaeth mwyaf effeithiol a phositif ar gyfer plant AAA.
11. Cydweithio'n agos â rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, a chyda gwasanaethau cynhaliol.
12. Hyfforddi aelod o'r staff fel Cydlynnydd AAA ac sydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi AAA.
13. Hyfforddi staff cynhaliol AAA ar gyfer addysgu plant yn unigol, mewn grwpiau, neu mewn sefyllfa gwahaniaethol.
14. Sicrhau fod y cyfrifoldeb sydd gan holl staff yr ysgol a'r Corff Llywodraethol ar gyfer AAA yn cael ei weithredu a'u gynnal

Mae staff Ysgol Tyle'r Ynn yn sylweddoli fod pob athro/athrawes yn athro/athrawes AAA. Bydd pob aelod o'r staff yn gwahaniaethu yn ol yr angen, a dengys tystiolaeth o hyn yn eu cynllunio pythefnosol.

Mae ein polisi yn hyblyg, gan ein bod yn agored i syniadau newydd ar gyfer cynnal ein disgyblion, gan bo natur trafferthion y plant, yn ogystal â'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael, mor gyfnewidiol.

### **Darpariaeth arbennig Ysgol Tyle'r Ynn**

Mae plant sydd wedi'u cydnabod fel plant AAA yn derbyn cynhaliath ychwanegol yn ôl eu hangen. Mae cynorthwy-wyr addysgu yn cynnig cymorth i ddisgyblion AAA o fewn y dosbarth, neu yn gweithio gyda hwy tu allan i'r dosbarth, yn unigol neu mewn grwpiau. Bydd rhai plant sydd â thrafferthion penodol yn derbyn cymorth gan athrawon arbenigol AAA yr Awdurdod Addysg Leol.

Paratoir cynlluniau addysg unigol (CAU) i bob plentyn sydd ar y gofrestr AAA ac fe'u adolygir yn gyson. Pan yn briodol, a'n enwedig â phlant hŷn yr ysgol, sicrheir mewnbyn disgyblion i'w targedau CAU, ond man lleiaf sicrheir fod disgyblion yn ymwybodol o'u targedau CAU. Darperir copiau o'r CAU i'r rhieni/gofalwyr, a chroesawir mewnbyn ganddynt hwythau hefyd. Gofynnir i rieni/gofalwyr arwyddo copi o'r CAU a'u dychwelyd i'r ysgol. Dwywaith y flwyddyn caiff rieni/gofalwyr wahoddiad i'r ysgol i adolygu'r CAU.

### **Adnabod ac Aseu**

Y cynharaf mae anghenion addysgiadol arbennig plentyn yn cael eu cydnabod a'u aseu, a'r camau gweithredol angenrheidiol wedi'u cymeryd, y mwya llwyddiannus fydd y canlyniad.

Gosodir plant sydd wedi'u cydnabod fel plant AAA ar gofrestr AAA yr ysgol gan y cydlynnydd AAA yn dilyn trafodaeth gyda'r athro/athrawes ddosbarth a'r rieni/gofalwyr. Gosodir plant ar gofrestr AAA yr ysgol yn bennaf drwy argymhelliad athrawon dosbarth, ond weithiau ar sail canlyniadau profion statudol neu anstatudol e.e. prawf MIST.

### **Gweithredu model ymateb y Côt Ymarfer**

Mae Ysgol Tyle'r Ynn yn gweithredu ymateb triphlyg i blant sydd wedi'u cydnabod ag AAA yn unol a'r canllawiau a osodir yn y Côt Ymarfer.

### **Gweithredu'r Ysgol (GY)**

Pan fydd athro/athrawes wedi adnabod plentyn ag AAA a chyda cyd-weithrediad y cydlynnydd AAA dyfeisir ymeriadau sy'n wahanol i, neu'n ychwanegol at, ddarpariaeth arferol y cwricwlwm ddosbarth. Cofnodir rhein yn y CAU a ddyfeisiwyd ar gyfer y plentyn

### **Gweithredu Ysgol Pellach GY+**

Nodwedd gweithredu ysgol pellach yw ceisio cymorth neu chynngor gan wasanaethau cynhaliol allanol. Gosodir plentyn ar GY+ os ydy'r plentyn yn dal heb wneud cynnydd neu ychydig iawn o gynnydd, neu fod trafferthion ymddygiad yn dal i fod, er gwaethaf y strategaethau a osodir yn eu lle yn ystod GY. Bydd disgyblion sydd â nam ar eu synhwyrâu ar GY+ oherwydd maent yn derbyn cynhaliath cyson gan athrawon arbenigol y synhwyrâu.

### **Aseu Statudol**

Os penderfynnir fod angen cynhaliath ychwanegol ar blentyn, gellir gwneud cais am asesiad statudol. Caiff hyn ei ystyried os fydd plentyn yn gwneud ychydig bach iawn neu dim cynnydd er gwaethaf ymyrraeth ar lefel GY a GY+. Gellir gwneud cais gan yr ysgol, rhieni/gofalwyr neu unrhyw asiantaeth allanol. Gall y cais yma arwain at ddatganiad ar gyfer y plentyn, ond nid yn angenrheidiol.

### **Monitro ac Arfarnu**

Caiff polisi a chynhaliaeth AAA Ysgol Tyle'r Ynn eu monitor a'u arfarnu yn y modd canlynol:

- a) Monitro ymarfer dosbarth gan gynnwys craffu ar lyfrau
- b) Monitro CAU
- c) Dadansoddi data tracio disgyblion a chanlyniadau profion disgyblion unigol a'u cyfoedion
- d) Monitro gweithdrefnau ac ymarfer AAA gan y llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb AAA.
- e) Gweithgareddau hunan arfarnu
- f) Adrodd nol gan rieni/goflawyr, staff a disgyblion – yn ffurfiol neu'n anffurfiol
- g) Ymweliadau gan bersonnel yr AAL, hefyd trefniadau arolygu ESTYN.

### **Ffeiliau disgyblion AAA**

Cedwir gwybodaeth ynglyn â phob plentyn sydd ar y gofrestr AAA mewn ffeiliau unigol yn swyddfa'r ysgol. Mae'r ffeiliau yma ar gael ar gyfer staff addysgu a phobl proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn.

Pan fydd disgyblion AAA yr ysgol yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, fe fydd y ffeiliau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol perthnasol.

### **Mynediad i'r Anabl**

Mae mynediad i'r ysgol i ddefnyddwyr cadair olwyn ac mae yna dŷ bach ar gyfer yr anabl o fewn yr ysgol. Serch hynny dyw'r adeilad ddim yn hollol addas oherwydd mae yna nifer o risiau o fewn yr ysgol.

### **Cyfleoedd Cyfartal**

Ein bwriad yw sicrhau fod pob plentyn yn cyrraedd eu potensial er gwaethed eu rhyw, tras hiliol, gallu neu medrau corfforol.

### **Plant Dawnus**

Cydnabyddwn fod rhai plant yn meddu ar dalentau a/neu galluoedd sydd tu hwnt i'w cyfoedion, ac o'r herwydd mae ganddynt hwy anghenion addysgiadol arbennig sydd ar begwn arall y sbectwm addysgu. Bydd athrawon dosbarth yn cynllunio ar eu cyfer drwy paratoi a chynnig gweithgareddau sy'n fwy ymestynnol iddynt hwy.

Gweler mwy o wybodaeth ym mholisi Mwy Abl a Thalentog yr ysgol.

### **Cwynion**

Os ydy rhieni/gofalwyr plant AAA yn anfodlon â'r darpariaeth a gynigwyd i'w plentyn, dylent yn gyntaf drafod eu pryderon â'r athro/athrawes ddosbarth. Os dymunant, cânt drafod yn hytrach â'r cydlynnydd AAA. Byddai'n fuddiol petaent yn gwneud apwyntiad o flaen llaw er mwyn gwneud hynny.

Mewn achos o gwyn ffurfiol, dylai'r rhieni/gofalwyr gysylltu â'r Pennaeth, naill ai ar lafar, neu yn ysgrifenedig. Caiff unrhyw gwyn ffurfiol ei gydnabod yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod, a'i gyfeirio o fewn un ar hugain diwrnod.

Os ydy'r rhieni/goflawyr yn dal yn anfodlon ar ôl trafod â'r Pennaeth, mae ganddynt yr hawl; i fynd at y Corff Llywodraethol yn gyntaf, a'r AAL os ydynt yn dal heb gael gytundeb.

Os, yn y pen draw maent yn dymuno mynd a'u cwyn ymhellach, dylent gysylltu â'r tribiwnlys AAA.

### **Cyfrifoldebau y Corff Llywodraethol**

Y llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb dros AAA yw Mrs Margaret Davies

Mae'n ddyletswydd ar y Corff Llywodraethol sicrhau y canlynol:

1. Darpariaeth addas ar gyfer pob disgybl AAA
2. Fod staff gyfan yr ysgol yn ymwybodol fod angen iddynt gydnabod plant AAA a darparu ar eu cyfer
3. Fod plant AAA yn ymuno mewn holl weithgareddau'r ysgol, cyd a bod hynny'n briodol a'n ymarferol.
4. Eu bod yn adrodd nol i'r rhieni/gofalwyr a darpariaeth AAA yr ysgol drwy'r adroddiad blynyddol
5. Fod rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu os fydd yr ysgol yn gosod eu plentyn ar y gofrestr AAA
6. Eu bod yn trefnu cyllid a staffio addas ar gyfer trefniadau AAA
7. Eu bod hwy, a'r ysgol gyfan, yn gyfrifol am ddatblygu a monitro'r polisi hwn

Gorffennaf 2010

Adolygwyd Mawrth 2017